

# Llawlyfr Hawdd ar gyfer Cynlluniau Teithio i'r Ysgol






RHONDDA CYNON TAF

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Strategaeth Trafnidiaeth
Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Tŷ Sardis
Pontypridd
CF37 1DU




# Ydych chi'n paratoi Cynllun Teithio i'r Ysgol? Llawlyfr Hawdd ar gyfer Cynlluniau Teithio i'r Ysgol

## Beth yw cynlluniau teithio i'r ysgol?

Mae Cynllun Teithio i'r Ysgol (STP) yn broses ble mae'r ysgol yn penderfynu sut i sicrhau bod y daith i'r ysgol ac i'r cartref yn ddiogel ac yn gynaliadwy ar gyfer disgyblion, rhieni ac athrawon.

Caiff Cynlluniau Teithio i'r Ysgol yn eu paratoi trwy ymgynghori â phawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol. Rhaid ystyried tueddiadau cyfredol a'r sefyllfa leol. Bydd cynllun teithio un ysgol yn wahanol iawn i gynllun teithio ysgol arall.

Mae'r Cynlluniau yma'n llawer mwy na chynllun teithio, mae'r cynllun yn bwriadu gwella iechyd, ehangu addysg a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Mae'r Cynlluniau yn cyfrannu at greu cymunedau lleol gwyrdd ac at wella ansawdd bywyd. *(Sustrans).*

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Strategaeth Trafnidiaeth
Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Tŷ Sardis
Pontypridd
CF37 1DU



# Manteision Cynllun Teithio i'r Ysgol

## Beth yw manteision y Cynllun?

Does dim modd ysgrifennu Cynllun Teithio i'r Ysgol dros nos. Bydd angen i nifer o bobl ymrwymo i'r broses ond bydd e werth chwil. Dechreuwch gyda chamau bach. Byddwch chi'n synnu faint o waith mae modd ei gyflawni yn rhan o waith y dosbarth neu fentrau cyfredol eraill. Bydd Cynllun Teithio i'r Ysgol yn:

- Arddangos ymrwymiad yr ysgol i faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r gymuned. Mae Arolygon Ysgol yn cadw cofnod o gynlluniau sy'n cefnogi addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac sy'n cynnwys y gymuned ehangach, er eu bod yn canolbwyntio ar safonau yn yr ysgol yn bennaf.
- Helpu i ddod o hyd i gyllid ar gyfer mentrau llwybrau diogel a chynlluniau megis parcio beics neu wella diogelwch ar y ffyrdd.
- Hyrwyddo materion teithio i'r ysgol â rhieni, disgyblion a staff.
- Gwella'r cyfle o gael caniatâd cynllunio er mwyn datblygu'r ysgol ymhellach.
- Darparu fframwaith er mwyn cysylltu â'r cwricwlwm, yn arbennig mewn perthynas â dinasyddiaeth, daearyddiaeth ac addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd.
- Cyfrannu at fentrau megis Ysgolion Iach ac Eco Ysgolion.



**Manteision i'r ysgol**

- Mae'r Cynllun yn darparu ffocws ar gyfer gwaith dosbarth yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Mae'n lleihau nifer y cwynion gaiff eu derbyn gan rieni a phreswylwyr ynglŷn â pha mor ymosodol yw'r gyrwyr.
- Gwella iechyd plant, sy'n eu helpu i ganolbwyntio yn y dosbarth


**Manteision ar gyfer y daith i'r ysgol ac oddi yno**

- Lleihau nifer y damweiniau a'r peryglon ar y daith i'r ysgol
- Lleihau tagfeydd wrth glwydi'r ysgol
- Sicrhau bod yr ardal o gwmpas yr ysgol yn fwy diogel a hwylus i bawb

**Manteision i ddisgyblion**

- Gwella iechyd a ffitrwydd y disgyblion drwy gerdded a beicio
- Caniatáu i blant ddod i'r arfer â thrafnidiaeth gyhoeddus a rhoi'r gallu iddyn nhw fod yn fwy effro i beryglon y ffyrdd
- Bydd plant yn dysgu sgiliau hanfodol
- Rhoi annibyniaeth i'r disgyblion

RHONDDA CYNON TAF




**Manteision i'r gymuned**

- Lleihau tagfeydd, llygredd a sŵn traffig
- Lleihau nifer y teithiau mewn car

**Manteision i rieni**

- Caniatáu i rieni a phlant ddewis rhwng cerdded, beicio, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a rhannu car
- Magu plant mwy iach a chall
- Mae cwblhau asesiad risg ar lwybr teithio yn lleihau'r pryderon am y llwybr hwnnnw





# Sut i baratoi Cynllun Teithio

## Beth yw'r cam nesaf?

**1. Sefydlu Gweithgor**

Mae angen i bawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol ymrwymo i ddatblygu cynllun teithio llwyddiannus. Rhaid dewis cydlynydd neu eiriolwr mewnol er mwyn arwain y cynllun; efallai mai'r pennaeth, athro/athrawes brwdfrydig neu lywodraethwr fydd y person hwnnw.

Efallai bydd y gweithgor gynnwys disgyblion, athrawon, llywodraethwyr, rhieni ac, o bosibl, Gynghorydd lleol. Unwaith i'r gweithgor gael ei sefydlu, bydd yr aeloda yn pennu amserlen ar gyfer y cynllun a nodi'r hyn y mae angen ei wneud erbyn pryd a gan bwy.

**2. Mynnwch sgwrs â phob parti a chasglwch ddata.**

Dewch o hyd i'r materion sy'n effeithio ar yr ysgol. Cynhaliwch arolwg teithio i'r ysgol.

**3. Penderfynwch ar fentrau, amcanion a thargedau'r cynllun teithio.**

Rhaid i'r gweithgor nodi mentrau a gwelliannau a thargedau posib er mwyn datrys y materion hynny sydd yn yr arolwg cynllun teithio.



# Sut i baratoi Cynllun Teithio

**4. Ysgrifennu'r Cynllun Teithio**

Ysgrifennwch y Cynllun. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnig enghreifftiau o gynlluniau teithio cyfredol er mwyn helpu â'r dasg yma.

**5. Cyflwyno a gweithredu'r cynllun, rhoi gwybod amdano, a'i hyrwyddo.**

Cyflwyno'r cynllun – Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a'i anfon at Adran Strategaeth Trafnidiaeth y Cyngor er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.

Nawr, amdani! Byddwch chi wedi paratoi rhaglen o gynigion, gweithgareddau a mentrau yn rhan o'ch cynllun. Bydd angen eu gweithredu nhw.

**6. Monitro, adolygu ac ailasesu**

Dylai'r gweithgor barhau i gwrdd yn aml er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith, adolygu cynnydd y cynllun ac ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi. Dylai'r gweithgor gael adborth gan ddisgyblion a rhieni ynglŷn â'r camau gweithredu, gwelliannau a mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr ysgol.



# Beth sydd angen ei gynnwys mewn Cynllun Teithio?

Pethau i'w hystyried a'u cynnwys

**1. Disgrifiad byr o'r ysgol**

Dylai hyn gynnwys disgrifiad byr o'r ysgol, ei maint a'i threfn, sawl disgybl sy'n mynychu'r ysgol, ei dalgylch, unrhyw gynlluniau ar gyfer ehangu a ffactorau sy'n effeithio ar deithiau i'r ysgol.

**2. Tystiolaeth o'r ymgynghoriad**

Dylai ymgynghoriad sy'n defnyddio proses arolwg/holiadur sefydlu sut mae staff a disgyblion yn teithio i'r ysgol ar hyn o bryd yn ogystal â sut byddan nhw'n hoffi teithio yn y dyfodol. Efallai bydd yr arolwg yn cynnwys y problemau sy'n effeithio ar sut mae disgyblion ac athrawon yn teithio i'r ysgol ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r arolygon yma yn sail i'ch data, a hynny er mwyn i chi nodi problemau cyfredol a monitro newidiadau o ganlyniad i unrhyw fentrau/gwelliannau.

**3. Crynodeb o broblemau cludiant ysgol a diogelwch ar y ffyrdd**

Bydd hyn yn taflu goleuni ar faterion allweddol ymhlith disgyblion, athrawon, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.

Bydd hyn yn cynnwys y rhesymau sy'n dylanwadu ar sut mae person yn teithio i'r ysgol, megis materion diogelwch ar y ffyrdd, cysylltiadau trafnidiaeth gwael ayyb. Dylai materion sy'n deillio o'r ysgol a'r tu hwnt iddi gael eu nodi.




**4. Cynllun Gweithredu – Mentrau arfaethedig, gan gynnwys gwrthwynebiadau a thargedau**

Bydd yr adran yma'n cynnig rhestr o gamau a mentrau sy wedi'u nodi rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â nhw/eu gweithredu.


**5. Paratoi tuag at weithredu'r Cynllun**

Mae'n bwysig pennu'r hyn rydych chi eisiau ei gyflawni. Mae hefyd yn bwysig rhoi cynllun gweithredu ar waith. Rhaid ystyried yr isod mewn perthynas â'r gwelliannau neu'r mentrau rydych chi wedi'u nodi:

- Dyddiad dechrau a gorffen tasgau
- Person sy'n arwain y cynllun yn yr ysgol
- Yr hyn sydd ei angen gan sefydliadau eraill gan gynnwys yr Awdurdod Lleol ayyb
- Cost y cynllun (amser ac arian)
- Ffynonellau Cyllid



RHONDDA CYNON TAF




## 6. Paratoi ar gyfer cyfnodau monitro ac adolygu

Ar ôl treulio amser gwerthfawr yn datblygu'r Cynllun Teithio i'r Ysgol, byddwch chi eisiau sicrhau nad ydych chi'n rhedeg ar ôl sgwarnog o ran eich amcanion. Efallai fydd rhai o'r pethau rydych chi wedi'u cynllunio ddim yn berthnasol bellach neu bydd rhai pethau wedi digwydd yn gynharach na'r disgwyl. Dylech chi ystyried sut a phryd i fonitro newidiadau a sut y rhoddir gwybod am y newidiadau yma. Dylech chi hefyd ystyried pwy ac/neu pryd bydd y cynllun yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau eich bod chi'n parhau i fwrw targedau.

## 7. Cytundeb y Cynllun Teithio i'r Ysgol:

Mabwysiadu'r cynllun – Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Llywodraethwyr a'i anfon ymlaen at Adran Strategaeth Trafnidiaeth y Cyngor er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.







# Gwelliannau/Mentrau y mae modd i chi eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Teithio i'r Ysgol

## Ysbrydoliaeth a Syniadau?

### Addysg a Chyhoeddusrwydd

- Bws Cerdded

  Mae bws cerdded yn fenter er mwyn annog plant i gerdded i'r ysgol, yng nghwmni oedolion. Drwy wneud hyn, bydd yr ysgol yn lleihau traffig a thagfeydd y tu allan i'r ysgol.

- Hyfforddiant Hyfedredd Beicio

  Rhaglen hyfforddi sy'n cael ei gynnal ar dir yr ysgol ac sy'n hyrwyddo beicio'n ddiogel. Mae'r rhaglen yn bwriadu annog beicwyr ifainc i ddatblygu'u hymwybyddiaeth a'u gallu i feirniadu sefyllfa fel eu bod nhw'n fwy parod i ymdopi â pheryglon y ffordd.

- Achlysuron Diwrnod/Wythnos Cerdded i'r Ysgol

  Achlysur un diwrnod/wythnos sy'n annog plant a rhieni i gerdded i'r ysgol er mwyn helpu i leihau nifer y cerbydau sy'n cael eu defnyddio, ac i leihau tagfeydd o gwmpas yr ysgol.



- Cynlluniau, yn seiliedig ar y cwricwlwm, sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy

  Mae modd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd a manteision defnyddio trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy. Mae modd i ysgolion gymryd rhan mewn cynlluniau Eco-Ysgolion ac Ysgolion Iach. (Mae rhestr o wefannau yn yr adran adnoddau defnyddiol).


- Cynllun Diogelwch y Ffyrdd (Kerbcraft)

  Mae 'Kerbcraft' yn defnyddio hyfforddiant ochr y ffordd ymarferol, i ddysgu sgiliau cerdded yn ddiogel i blant rhwng 5 a 7 oed. Bydd tiwtoriaid cymwysedig yn gwmni iddyn nhw.

- Cynlluniau Ymddygiad ar Fysiau

  Mae modd cyflwyno cynlluniau ymddygiad ar fysiau er mwyn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â diogelwch ac ymddygiad ar fysiau, ac er mwyn mynd i'r afael â nhw.

  Mae nifer o ysgolion ledled y DU wedi sefydlu cynlluniau llwyddiannus tebyg. Mae pob cynllun fel arfer yn unigryw ac wedi'i gynllunio i fodloni anghenion penodol yr ysgol.



RHONDDA CYNON TAF

- Datganiad Cenhadaeth yr Ysgol

  Datganiad o fwriad. Yma, byddwch chi'n nodi bwriad yr ysgol i dynnu sylw at broblemau cyfredol a'i huchelgais i wneud gwelliannau cyffredinol drwy weithredu cyfres o fentrau sy wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu.

- Parcio a Chamu

  Mae'n bosib bod rhaid i rai plant deithio yn y car i'r ysgol. Ond, does dim rhaid gyrru'r holl ffordd o'r cartref i'r ysgol. Dewch o hyd i le addas i barcio sydd rhwng 5 a 10 munud i ffwrdd o'r ysgol. Efallai ei fod yn faes parcio cyhoeddus, siop ayyb (gwnewch yn siwr bod gyda chi ganiatâd i barcio os oes angen).

  Bydd modd i blentyn gerdded â rhiant neu ffrind o'r man yma i'r ysgol. Bydd cerdded rhan o'r ffordd yn rhoi cyfle i'r plentyn ymarfer corff, a bydd y plentyn yn magu sgiliau cerdded hanfodol. Mae hefyd yn fodd i leihau tagfeydd traffig o flaen yr ysgol. Bydd yr ysgol, felly, yn lle mwy diogel i bawb arall sy'n teithio ar droed.





RHONDDA CYNON TAF

- Clwb Rhannu Ceir ar gyfer Athrawon a Rhieni

  Bydd Clwb Rhannu Ceir yn caniatáu i rieni ac/neu athrawon rannu car a theithio gyda'i gilydd. Bydd hyn yn caniatáu rhieni/disgyblion ac athrawon i fanteisio ar fuddion defnyddio car os does dim modd ei osgoi. Bydd rhannu car hefyd yn lleihau nifer o broblemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd traffig a llygredd.



- Cylchlythyr a Thudalen We

  Mae hyn yn fodd o dynnu sylw at y cynllun teithio i'r ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae disgyblion sy'n teithio i'r ysgol yn eu hwynebu. Hefyd, mae'n ffordd o daflu goleuni ar y mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith er mwyn datrys y problemau yma.




**Gwelliannau ar gyfer amgylchedd yr Ysgol**

- Cyfleusterau parcio beiciau diogel, dan orchudd ar gyfer staff a disgyblion
- Llwybrau cerdded a llwybrau beicio ar wahân ar dir yr ysgol
- Cyfleusterau newid a sychu ar gyfer beicwyr
- Loceri er mwyn stori cyfarpar
- Cyfleusterau parcio bysiau'r ysgol
- Cyfleusterau parcio ar wahân i athrawon
- Man gollwng ar gyfer rheini
- Llwybrau troed trwy'r ysgol ac ail-wynebu llwybrau cyfredol




**Mesurau'r Priffyrdd**

- Blaenoriaethu beicwyr a cherddwyr
- Cyfleusterau croesi'r ffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Goleuadau'r strydoedd

**Materion Rheoli'r Ysgol**

- Rheoli mynediad i'r ysgol, a rheoli'r amser pan fydd modd mynd ar safle'r ysgol, e.e. ystyried newid amseroedd dechrau/gorffen sesiynau ysgol ac/neu gyfyngu mynediad i dir yr ysgol ayyb.
- Rheoli parcio rhieni
- Rheoli'r amser pan mae bysiau yn cael cyrraedd a gadael tir yr ysgol
- Rheoli'r ffordd mae disgyblion yn defnyddio'u ceir (Disgyblion Bl. 12 a 13)

RHONDDA CYNON TAF

# Dogfennau defnyddiol:

Gwefannau defnyddiol

http://gov.wales/docs/dcells/publications/170623-all-wales-travel-behaviour-code-statutory-guidance-cy.pdf
www.saferoutestoschools.org.uk/
https://www.livingstreets.org.uk/who-we-are/wales
www.modeshift.org.uk/
www.esd-wales.org.uk/
www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/schooltravel/
www.safekidswalking.org.uk/ – taflen am fysiau cerdded: *How to get more kids walking to school*
accounts.keepwalestidy.cymru/cartref
http://www.roadsafetywales.org.uk/?Language=W